

Cylch Gorchwyl Pwyllgor: PWYLLGOR ENWEBIADAU

Yn adrodd i: y Cyngor

Yn cyfarfod: fely pennir gan y Cadeirydd, er mwyn i'r Pwyllgor allu gweithredu o fewn yr amser angenrheidiol

Yr adolygiad diwethaf ar y cylch gorchwyl: Mehefin 2021; y diwygiadau diwethaf: Gorffennaf 2021; i'w adolygu nesaf: Gorffennaf 2023

Aelodau:

- Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair)
- 2 Aelod Annibynnol
- Is-Ganghellor
- 1 Aelod Staff (wedi ei benodi o blith staff y Senedd a'r aelodau staff anacademaidd ar y Cyngor neu'r pwyllgorau llywodraethu)
- 1 Myfyriwr (wedi ei benodi o blith y Myfyrwyr sy'n aelodau o'r Cyngor)

6 aelod.

Cworwm: 4 aelod.

Ni chaiff unigolyn fod yn bresennol yn ystod trafodaeth gysylltiedig â'i benodiad ei hun, neu benodiad ei olynwyr i'r swyddogaeth honno. Pan fydd Cadeirydd y Cyngor angen ymesgusodi bydd Aelod Annibynnol yn cadeirio'r cyfarfod.

Yn bresennol:

- Ysgrifennydd y Brifysgol

Os yw'r Cadeirydd yn barnu ei bod yn briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd.

Cylch gwaith:

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn ystyried a chytuno ar argymhellion ar gyfer y Cyngor mewn perthynas â phenodiadau allweddol, gan gynnwys penodi ac ail-benodi'r Cadeirydd a'r Aelodau Annibynnol i'r corff llywodraethu a'i is-bwyllgorau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried ac yn cytuno ar argymhellion cysylltiedig â chyfnod yr Is-ganghellor yn y swydd, ac unrhyw ail-benodi am gyfnodau pellach.

Cylch Gorchwyl:

1. Ystyried ac argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo:
 - a. Penodi Cadeirydd newydd i'r Cyngor (pan fo'r Cyngor wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Pwyllgor Enwebiadau arwain y broses honno yn unol â'r Ordinhad);
 - b. cyfnod Cadeirydd y Cyngor yn y swydd, a phrosesau ar gyfer ail-benodi am gyfnod pellach;
 - c. cyfnod yr Is-ganghellor yn y swydd, a phrosesau ar gyfer ail-benodi am unrhyw gyfnodau pellach;
 - d. penodi, ac ail-benodi Aelodau Annibynnol, fely caniateir gan yr Ordinhad, i wasanaethu ar y Cyngor a/neu'r is-bwyllgorau llywodraethu;
 - e. cyfethol unigolion i wasanaethu ar y Cyngor; a
 - f. penodi Ymwelydd i ddyfarnu deisebau unigol, i'w benodi'n ffurfiol gan y Cyfrin Gyngor.

2. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori'r Cyngor fel sy'n briodol ar:
 - a. Rhywedd a dangosyddion amrywiaeth eraill mewn cysylltiad â chyfansoddiad y Cyngor a'r is-bwyllgorau llywodraethu.

Gweithredu

Wrth fynd i'r afael â materion cysylltiedig ag aelodaeth y Cyngor a'r is-bwyllgorau llywodraethu, dylai'r Pwyllgor Enwebiadau ystyried:

- trefniadau cynllunio olyniaeth er mwyn sicrhau parhad dulliau llywodraethu effeithiol, gan gynnwys mewn cysylltiad â'r trosglwyddo'r is-bwyllgorau llywodraethu rhwng y Cadeiryddion; ac
- amrywiaeth yr aelodaeth mewn cysylltiad â rhywedd a dangosyddion eraill.

Fel y nodir yn yr Ordinhad, bydd aelodau'r Pwyllgor Enwebiadau hefyd yn dod yn rhan o unrhyw Bwyllgor Dewis a sefydlir er mwyn ystyried penodi (ac unrhyw ail-benodi) y Canghellor, ac unrhyw Ddirprwy Gangellorion.

Gall y pwyllgor ystyried materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor, y Senedd (trwy'r Is-Ganghellor), neu Weithrediaeth y Brifysgol.